**Adroddiad Blynyddol Grŵp Trawsbleidiol: Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd**

**Dyddiad: 13 Ionawr 2016**

**Aelodaeth y Grŵp a deiliaid swyddi**

**Cadeirydd**

| | |
|---|---|
| Mark Isherwood AC | |

**Aelodau'r Cynulliad**

| | |
|---|---|
| Andrew RT Davies AC<br>Suzy Davies AC<br>Julie Morgan AC | Kirsty Williams AC<br>Simon Thomas AC<br>Mike Hedges AC |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| Carol Morgan-Jones (NEA Cymru) | Andrew Regan (Cyngor ar Bopeth Cymru) |

**Aelodau allanol**

| | |
|---|---|
| Graeme Francis - Age Cymru<br>Haf Elgar - Cyfeillion y Ddaear<br>Jennie Bibbings - Shelter Cymru<br>Ed Bridges - Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched<br>Vera Brinkworth - Gofal a Thrwsio Cymru<br>Ceri Dunstan - Shelter Cymru<br>Rachel Gingell - Gofal a Thrwsio Cymru<br>Mary van den Heuvel - Leonard Cheshire Disability<br>Shea Jones - Cartrefi Cymunedol Cymru<br>Sean O'Neill - Plant yng Nghymru<br>Rebecca Rennison - Leonard Cheshire Disability<br>Hayley Richards - Oxfam Cymru<br>Rita Singh - Cynnal Cymru<br>Alun Thomas - Cyngor ar Bopeth Cymru<br>Michael Anderson - SSE<br>Gwion Evans - Comisiynydd Plant Cymru<br>Cat Griffith-Williams - Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig<br>Paul Haines - Nwy Prydain | Rhian Hughes - Canolfan Cydweithredol Cymru<br>Alun James - WWF<br>Chris Jones - Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr<br>Crispin Jones - E.on<br>Richard Jones - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru<br>Peter Kocen - Energy UK<br>Duncan McCombie - yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni<br>Lia Murphy - Ofgem<br>Andy Regan - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru<br>Nick Speed - Nwy Prydain<br>Nigel Winnan - Wales and West Utilities<br>Craig Anderson, Cymru Gynnes<br>Tony Graham - Trussell Trust<br>Carol Davies - Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain |

**Cyfarfodydd blaenorol y Grŵp ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf**

**Cyfarfod 1**

Dyddiad: Cafodd y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 25 Mehefin 2015 yn Ystafell Gynadledda 21, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd ei ganslo gan nad oedd digon yn bresennol. Roedd yr agenda arfaethedig yn cynnwys casgliadau dau ddarn newydd o waith ymchwil gan Gyngor ar Bopeth yn ymwneud â chynorthwyo aelwydydd agored i niwed nad ydynt byth yn newid cyflenwr, a phrofiad defnyddwyr o'r gefnogaeth a gynigir gan Nest, Arbed a mentrau eraill yn ymwneud â thlodi tanwydd.

Bwriadwyd hefyd archwilio casgliadau ac argymhellion diweddaraf adroddiad *UK Fuel Poverty Monitor* yr NEA ar gyfer 2014-15 a oedd yn ystyried y gwahanol bolisïau tlodi tanwydd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**Cyfarfod 2**
Dyddiad: Dydd Mawrth 6 Hydref 2015 - Tŷ Hywel (Ystafell Gynadledda 21), Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

**Yn bresennol**

**Aelodau'r Cynulliad**

| | |
|---|---|
| Mark Isherwood AC (Cadeirydd)<br>Ryland Doyle yn cynrychioli Mike Hedges AC<br>Lucas Leblanc, Cynorthwy-ydd Polisi ac Ymchwil, yn cynrychioli Julie Morgan AC | |

**Rhanddeiliaid**

| | |
|---|---|
| Carole Morgan-Jones - NEA Cymru<br>Ben Saltmarsh, NEA Cymru<br>Andrew Regan - Cyngor ar Bopeth Cymru<br>Tomos Davies, NEA Cymru<br>Duncan McCombie, EST<br>Daniel Bellis, Cymdeithas Landlordiaid Preswyl<br>Nick Speed - Nwy Prydain | **Ymddiheuriadau:**<br><br>Michael Anderson - SSE<br>Iwan Williams - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru<br>Shea Jones, Cartrefi Cymunedol Cymru<br>Crispin Jones |

**Crynodeb o'r materion a drafodwyd**

1. Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

2. Croesawodd Mark Isherwood y gwesteion i gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol a gofynnodd i bawb gyflwyno'u hunain.

3. Rhoddodd Stew Horne, Uwch Reolwr Grymuso ac Ymddygiad Defnyddwyr Ofgem, fraslun o'r hyn y mae Ofgem yn ei wneud ynghylch y modd y mae cyflenwyr yn trin cwsmeriaid sy'n talu ymlaen llaw a pha mor agored i niwed yw defnyddwyr, fel yr amlinellwyd yn strategaeth *Consumer Vulnerability*, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013.

4. Ar hyn o bryd mae Ofgem yn ystyried ailddiffinio 'agored i niwed' i gydnabod y gall sefyllfa pobl newid dros y blynyddoedd hy cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd agored i niwed yn hytrach na chanolbwyntio ar gwsmeriaid agored i niwed fel y cyfryw. Fel rhan o flaengynllun gwaith eu strategaeth, byddant yn ystyried sut y mae cyflenwyr yn mabwysiadu'r diffiniad newydd.

5. Mae'r strategaeth *Consumer Vulnerability* yn cynnwys diogelu cwsmeriaid sy'n defnyddio mesuryddion talu ymlaen llaw (PPM) ; protocol pennu dyled, canllaw i gynghorwyr a marchnadoedd a gwasanaethau cynhwysol fel Ffocws ar Ynni: y Fargen Orau ac Ynni: y Fargen Orau a Mwy (sesiynau 1 i 1) a'r Gofrestr Blaenoriaethu Gwasanaethau.

6. Roedd y meysydd gwaith eraill yn cynnwys ystyried cartrefi nad oes ganddynt gyflenwad nwy a'r rhaglen i ehangu'r rhwydwaith tlodi tanwydd, deall systemau gwresogi trydanol, ac ynni

cymunedol.

7. O ran fforddiadwyedd, mae rhaglen waith Ofgem yn cynnwys y gostyngiad Cartrefi Cynnes, rhwymedigaeth y cwmnïau ynni a biliau clyfar. O ran dyledion a datgysylltu'r cyflenwad, mae angen rhoi canllawiau cliriach i gyflenwyr, gan gynnwys ystyried proses o wrthwynebu'r ddyled a sut y mae cyflenwyr yn gwrthwynebu dyled. Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n cael eu datgysylltu'n lleihau, ond gwelwyd cynnydd o 2% yn nifer y cwsmeriaid sy'n talu ymlaen llaw drwy ddefnyddio mesuryddion talu, ac maent bellach yn cyfrif am 4.5 miliwn o gyfrifon trydan a 3.4 miliwn o gyfrifon nwy ledled y DU.

8. Mae'r ffactorau sy'n rhwystro cwsmeriaid PPM rhag newid eu cyflenwr yn cynnwys diffyg tariffau ar y farchnad, tâl am osod a datgysylltu mesuryddion, blaendaliadau diogelwch ac annhegwch yn y modd y cânt eu cymhwyso. Bu cynnydd o 35% yn y broses warant i osod PPM ar gyfer nwy, a chynnydd o 88% ar gyfer trydan. Nid oes cysondeb yn y prisiau y mae'r cyflenwyr yn eu codi, er enghraifft am anfon llythyrau. Mae pryder nad yw'r cyflenwyr yn ystyried pa mor agored i niwed yw cwsmeriaid, er enghraifft, gallai cwsmer anwybyddu llythyr gan eu cyflenwr oherwydd salwch.

9. Mae Ofgem am gryfhau rheoliadau blaendal diogelwch er mwyn dod â'r drefn o dalu blaendal diogelwch i ben am osod a datgysylltu mesuryddion talu ymlaen llaw. Mae'n debygol y cynhelir ymgynghoriad ddiwedd yr hydref ac mae Ofgem yn annog rhanddeiliaid i gymryd rhan a chyflwyno ymatebion.

10. Gofynnwyd sut y mae cyflenwyr a swyddogion gwarantu yn penderfynu bod cwsmeriaid yn agored i niwed pan fyddant yn cyrraedd i osod mesuryddion. Er enghraifft, os oes gan y perchennog gar drud ar y dreif, a ydynt yn tybio nad yw'r cwsmer hwnnw'n agored i niwed? Bydd cyflenwyr yn contractio'r warant allan i drydydd partïon ac mae'r modd y caiff hyn ei weithredu'n amrywio. Yn aml iawn, caiff cwsmeriaid eu hystyried yn agored i niwed os ydynt yn cael gostyngiad Cartrefi Cynnes, yn cael y Taliad Tanwydd Gaeaf neu os ydynt ar y Gofrestr Blaenoriaethu Gwasanaethau'r cyflenwr, ond nodwyd bod sefyllfa cwsmeriaid yn aml yn newid oherwydd argyfwng personol.

11. Holwyd hefyd a yw cyflenwyr yn annog cwsmeriaid i gael mesurydd talu ymlaen llaw yn hytrach na'u hannog i ystyried posibiliadau eraill, a holwyd sut y gallai Ofgem fonitro hyn. Mae safonau ymddygiad yn ganolog i hyn.

12. Gofynnwyd hefyd faint o gwsmeriaid sy'n dewis mesurydd talu ymlaen llaw er mwyn rheoli eu cyllid a dywedodd cynrychiolydd Nwy Prydain fod 60% ohonynt yn cael eu gosod oherwydd dyledion. Gofynnwyd hefyd a fyddai modd rhannu'r model a ddatblygwyd i nodi cwsmeriaid sy'n agored i niwed, a dywedwyd bod y cwmnïau rhwydwaith wedi cymryd yr awenau yn y cyswllt hwn.

13. Yna, gofynnodd Mark Isherwood i Andrew Regan, Swyddog Polisi Cyngor ar Bopeth Cymru a Carole Morgan-Jones, Cyfarwyddwr, NEA Cymru roi cyflwyniad ar y meysydd blaenoriaeth allweddol roedd Cynghrair Tlodi Tanwydd Cymru am i Lywodraeth nesaf Cymru weithredu arnynt i fynd i'r afael ag argyfwng cartrefi oer Cymru. Yn y cyflwyniad, amlinellwyd y pum blaenoriaeth allweddol, sef:

- Gosod targed tlodi tanwydd newydd i wella cartrefi fel eu bod yn cyrraedd safon effeithlonrwydd ynni sylfaenol C EPC, a sicrhau bod y data gennym i fwrw ymlaen â strategaeth newydd uchelgeisiol.

- Buddsoddi mewn rhaglen effeithlonrwydd ynni, sydd â digon o adnoddau, ac sy’n targedu cartrefi yng Nghymru sy’n dioddef o dlodi tanwydd, a sicrhau bod hyn yn cael blaenoriaeth o ran datblygu seilwaith.
- Achub bywydau drwy weithredu canllawiau NICE ar gyfer ymdrin â marwolaethau ychwanegol yn ystod y gaeaf
- Amddiffyn aelwydydd agored i niwed drwy sefydlu cronfa argyfwng i ganiatáu iddynt wresogi eu cartrefi pan fydd eu hiechyd mewn perygl
- Ariannu gwasanaethau annibynnol i roi cyngor a chymorth i helpu pobl mewn tlodi tanwydd

14. Mae'r Gynghrair o blaid buddsoddi yn rhaglenni arbed ynni Nyth ac Arbed ond mae’n teimlo y dylid buddsoddi rhagor yn y rhaglenni hyn.  Argymhellwyd hefyd y dylid newid y meini prawf cymhwysedd gan ddefnyddio canlyniadau gwaith ymchwil Cyngor ar Bopeth pan holwyd y cwsmeriaid hynny sydd ar incwm isel ac a gafodd gymorth gan y cynlluniau, gan ganolbwyntio ar y rhwystrau sy’n wynebu’r rhai sy’n gwneud cais am gymorth.

15. Dylid ehangu’r meini prawf cymhwyso ar gyfer y rhaglenni hyn. Dylai pobl fedru gwneud cais am gymorth os bydd byw mewn cartref oer yn niweidiol i’w iechyd neu’n effeithio ar iechyd neu addysg plant ifanc yn y teulu. Ar hyn o bryd, ni ellir cynnwys y plant yn y catrefi yn y cynllun.

16. Mae angen gwella’r data ar gyfer stoc tai Cymru a hynny ar fyrder, ac mae’r Gynghrair wedi galw am adroddiadau blynyddol ar lefelau tlodi tanwydd.  Soniwyd bod diffyg data yng Nghymru yn her fawr ac roedd angen mynd i’r afael â hyn.

17. Galwodd y Gynghrair hefyd ar i Lywodraeth nesaf Cymru fabwysiadu canllawiau NICE fel model parod i fynd i'r afael â marwolaethau ychwanegol yn y gaeaf.  Mae'r canllawiau’n cynnwys deuddeg argymhelliad fel datblygu strategaeth gyffredinol (fel Cynllun Tywydd Oer) i ymdrin â chanlyniadau cartrefi oer, nodi'r rhai y mae eu hiechyd yn fwyaf tebygol o ddioddef, asesu eu hanghenion gwresogi, sefydlu gwasanaeth cyfeirio ym maes iechyd a thai, a sicrhau y gallant fanteisio ar raglenni inswleiddio neu raglenni gwella systemau gwresogi a grantiau.

18. Yn ogystal â hyn, dylid hyfforddi amrywiaeth o unigolion a sefydliadau sy'n dod i gysylltiad â theuluoedd sy’n agored i niwed (gan gynnwys ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, gweithwyr tai proffesiynol, gweithwyr yn y sector gwirfoddol, peirianyddion systemau gwresogi, a gweithwyr sy’n gosod mesuryddion) i dynnu sylw at deuluoedd agored i niwed er mwyn eu helpu i wresogi ac inswleiddio’u cartrefi.  Mae'r canllawiau yn cynnig y sail tystiolaeth fwyaf awdurdodol a dibynadwy ynghylch sut y gall buddsoddi mewn mesurau iechyd ataliol arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol a sicrhau gwasanaeth iechyd cynaliadwy yng Nghymru.

19. Galwyd hefyd am weithredu cronfa argyfwng ar gyfer Cymru gyfan i wresogi cartrefi ar adegau o argyfwng yn ystod tywydd oer. Un enghraifft yw Cynllun Gwres Fforddiadwy Sir y Fflint, sydd â chronfa argyfwng a ddefnyddir i helpu pobl na allant fforddio cynhesu eu cartrefi, drwy roi cymorth ariannol iddynt drwsio’r bwyler neu brynu bwyler newydd, gosod neu wella systemau gwresogi, er enghraifft.  Ac, yn olaf, roedd y Gynghrair am weld arian yn cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau annibynnol i roi cyngor a chymorth i bobl mewn tlodi tanwydd ac roedd am i gynlluniau newid cyflenwyr ar y cyd barhau i gael cymorth.

20. Diolchodd Mark Isherwood i bawb am ddod i’r cyfarfod, a nododd y dylai'r cyfarfod nesaf ystyried gwaith Grŵp Gwres Fforddiadwy Sir y Fflint.

**Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol**

| | |
|---|---|
| Stiw Horne, grymuso defnyddwyr uwch reolwr ac ymddygiad, Ofgem<br><br>Carole Morgan-Jones<br>Cyfarwyddwr<br>National Energy Action Cymru<br>4ydd Llawr<br>1 Heol y Gadeirlan<br>Caerdydd CF99 1NA | Andrew Regan<br>Swyddog Polisi Cymru<br>Cyngor ar Bopeth Cymru<br>Tŷ Trafalgar<br>5 Fitzalan Place<br>Caerdydd<br>CF24 0ED |

**Datganiad Ariannol Blynyddol: Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd**

**13 Ionawr 2016**

**Cadeirydd: Mark Isherwood AC**

**Ysgrifenyddiaeth**

Carol Morgan-Jones (NEA Cymru), Cyfarwyddwr, National Energy Action Cymru, Ystafell 4E, 4ydd Llawr, 1 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9HA. E-bost: carole.morgan-jones@nea.org.uk. Ffôn 02920 229322

Andrew Regan, Rheolwr Polisi Ynni, Cyngor ar Bopeth Cymru, 4ydd Llawr, Trafalgar House, 5 Fitzalan Place, Caerdydd CF24 OED. E-bost: Andrew.Regan@citizensadvice.org.uk. Ffôn 03000 231439

| | | |
|---|---|---|
| **Treuliau'r Grŵp.** | Dim. | £0.00 |
| **Cost yr holl nwyddau.** | Ni phrynwyd nwyddau. | £0.00 |
| **Buddiannau a gafodd y grŵp neu Aelodau unigol gan gyrff allanol.** | Ni chafwyd buddiannau. | £0.00 |
| **Ysgrifenyddiaeth neu gymorth arall.** | Ni chafwyd cymorth ariannol. | £0.00 |
| **Gwasanaethau a ddarparwyd i'r Grŵp, fel lletygarwch.**<br><br>Talwyd am yr holl luniaeth gan NEA Cymru. | | |
| **Dyddiad** | **Disgrifiad o'r darparwr a'i enw** | **Cost** |
| 6 Hydref 2015 | Darparwyd lluniaeth (te / coffi / sudd ffrwythau / dŵr) gan CH&Co Catering Ltd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Stryd Pierhead, Bae Caerdydd Caerdydd, CF99 1NA. | £22.80 |
| | **Cyfanswm y costau** | **£22.80** |